

Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

27 Medi 2016

Annwyl Aelod Cynulliad,

Ar 15 Medi, cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ym Mae Colwyn i drafod ein strategaeth ar gyfer gweddill mandad y Bwrdd ac i ymweld â swyddfeydd yr Aelodau yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal â hyn, trafodwyd materion sy'n ymwneud â diogelwch Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Rydym hefyd wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer tâl Cadeiryddion Pwyllgorau.

Diogelwch Aelodau'r Cynulliad a'u staff

Trafododd y Bwrdd y cymorth ariannol ar gyfer darpariaethau diogelwch sydd yn eu lle ar hyn o bryd ac amlygwyd nifer o gamau y gellid eu cymryd i wella diogelwch ar gyfer Aelodau a'u staff pan maent i ffwrdd o ystâd y Cynulliad, yng ngoleuni penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i adolygu trefniadau diogelwch yn eich swyddfeydd.

Mae Comisiwn y Cynulliad eisoes wedi cynnal ymweliadau â llawer o'ch swyddfeydd, ac mae cynlluniau i gwblhau'r gweddill yn ystod tymor yr hydref.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn ystyried diogelwch yn flaenoriaeth uchel ac y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd y tu mewn i gylch gwaith y Bwrdd fel mater o flaenoriaeth.

Yn dilyn marwolaeth drasig Jo Cox AS, mae mwy o frys i adolygu mesurau diogelwch presennol. Mae o fewn ein gallu i sicrhau bod adnoddau effeithiol ar gael mewn perthynas â mesurau i helpu i amddiffyn Aelodau. Felly, rydym wedi penderfynu cael gwared ar y gofyniad presennol bod £500 cyntaf costau diogelwch swyddfeydd yn cael ei dalu o Gostau Swyddfa'r AC unigol. Yn hytrach, byddwn yn creu cronfa wedi'i neilltuo a fydd yn darparu gwelliannau

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6331
E-bost/Email: Taliadau@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

diogelwch angenrheidiol a rhesymol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn eich swyddfeydd, llety preswyl (os yw'n berthnasol) a'ch cartrefi.

Mae'r adolygiad diogelwch a gynhelir gan swyddogion cymwysedig yn nodi gwelliannau sy'n 'rhaid' digwydd, y 'dylent' ddigwydd ac y 'gallent' ddigwydd. Bydd yr holl ychwanegiadau sy'n 'rhaid' ac y 'dylent' ddigwydd yn cael eu hariannu'n ganolog. Fodd bynnag, bydd y gwelliannau hynny a 'allent' ddigwydd yn amodol ar achos busnes.

Gall swyddogion cymwys helpu i gynghori ar gwmnïau sy'n addas ar gyfer dod o hyd i'r offer a argymhellir. Bydd yr Aelodau yn cael cyngor ar sut i brynu cyfarpar gan Wasanaethau Cymorth i Aelodau.

Bydd Cymorth Busnes i Aelodau yn cyhoeddi'r gwariant cyffredinol ar wella mesurau diogelwch ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Cyflogau Ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau

Yn dilyn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd ymgynghoriad yn cynnig ein bod yn cadw'r lefelau cyflog a fabwysiadwyd ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad (a amlinellir yn y tabl canlynol):

Pwyllgorau	Cyflog ychwanegol
Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth; Cyfrifon Cyhoeddus; Cyllid; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol	£13,000
Deisebau; Safonau	£8,660

Ar ôl ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, cytunwyd y dylai'r lefelau cyflog ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau barhau yr un fath.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi nodi y bydd cyfrifoldebau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol newydd, yr un mor sylweddol â rhai'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth eraill. Felly, bydd cadeirydd y Pwyllgor hwn yn derbyn yr uchaf o'r ddwy gyflog ychwanegol.

Yn yr un modd â thâl Aelodau a'r holl Ddeiliaid Swyddi, bydd cyflogau ychwanegol i gadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn Enillion Canolrif ASHE yng Nghymru, rhwng mis Mawrth a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.

Bydd Cymorth Busnes i Aelodau yn ysgrifennu at y Cadeiryddion i gadarnhau eu cyflog a fydd yn cael ei ôl-ddyddio o'r dyddiad y cawsant eu hethol i'r rôl hon.

Gwariant ar Lety Preswyl

Yn dilyn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd ymgynghoriad yn cynnig bod y Penderfyniad yn cael ei ddiwygio fel y byddai Aelodau sydd â'u prif gartref y tu allan i Gymru yn gymwys ar gyfer gwariant llety preswyl.

Rydym yn ddiolchgar am eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd cyn dod i benderfyniad.

Ein strategaeth

Yn ein cyfarfod trafodwyd ein nodau strategol ac yn datblygu cyfres uchelgeisiol o flaenoriaethau. Ein bwriad yw adeiladu ar lwyddiannau'r Bwrdd blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa gyfansoddiadol newidiol, er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud eu gwaith mor effeithiol â phosibl. Byddwn yn dryloyw wrth ddatblygu'r blaenoriaethau hyn a byddwn yn parhau i ymgynghori â chi wrth i ni ddatblygu ein rhaglen waith.


Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n rheolaidd â chi a'ch staff i sicrhau bod ein Penderfyniad yn parhau'n briodol a'n bod yn cyflawni ein dyletswyddau. Ar 16 Medi gwnaethom ymweld â nifer o Aelodau a'u staff mewn swyddfeydd etholaeth ar draws gogledd Cymru. I'r Aelodau a'r staff hynny y gwnaethom ymweld â chi, rydym yn ddiolchgar iawn am eich croeso a'r cyfle i siarad â chi.

Rydym yn parhau i gwrdd â llawer ohonoch chi yn anffurfiol ac yn gobeithio mynychu cyfarfodydd grŵp eich plaid a sefydlu cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr AC a Staff Cymorth y tymor hwn. Rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu parhaus dros y pedair blynedd nesaf.

Bydd y llythyr hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ôl ein harfer arferol.

Os hoffech drafod y mater hwn gyda mi, neu gydag un o fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau,



Y Fonesig Dawn Primarolo
Cadeirydd / Chair
Bwrdd Taliadau/Remuneration Board